


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Sant Ffraid/Marloes

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



**GRADDFA:** 0 400 800 m

**PELLTER/HYD:** 4.6 milltir (7.5 km) 2 awr

**CLUDIANT CYHOEDDUS:** Bws gwasanaeth Marloes 315/316,  
\*Pâl Gwibio 400 (\*tymhorol, galw a teithio)

**CYMERIAD:** Gweddol wastad, caeau a da byw, sticlau (5), gall fod yn fwdlyd mewn manau


**CHWILIWCH AM:** Caer Penrhyn o'r Oes Haearn • Castell ac Eglwys Sant Ffraid

## CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y Llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

## ALLWEDD

- Llwybr Cylch
- Llwybr Arfordir Sir Benfro  
Llwybr Cenedlaethol
- - - Llwybrau Cyhoeddus
- P** Parcio - cyfyngedig
- WC** Toiledau Cyhoeddus
- Safle Bws



# Sant Ffraid/Marloes

## Teithiau Hanner Dydd a Mwy

**Hyd:** 2 awr

**Pellter:** 4.6 milltir (7.5 km)

**Cludiant cyhoeddus:** Bws gwasanaeth Marloes 315/316, \*Pâl Gwibio 400 (\*ymhorol, galw a teithio).

**Cyfeirnod map:** SM803109



**O'r dyddiau neolithig i'r Oes Haearn - taith gerdded sy'n gyfoeth o hanes**

**Chwiliwch am:** Caer Penrhyn o'r Oes Haearn, Castell ac Eglwys Sant Ffraid .

Mae yna lawer o gylchoedd cwt ble daethpwyd o hyd i fflintiau a chrochenwaith yn yr ardal hon. Ar Nab Head roedd yna ffatri fflintiau Neolithig, ac ym Mhwynt Tŵr caer benrhyn fawr o'r Oes Haearn. Mae dau o ochrau'r gaer wedi eu hamddiffyn gan glogwyni serth a pheryglus ac mae'r dynesiad wedi'i amddiffyn gan fanc a ffos.

Mae yna olygfeydd da allan at Sgomer, sy'n Warchodfa Natur Genedlaethol a ddethlir am ei chytrefi o adar, ac yn ôl ar hyd yr arfordir i Benmaendewi. Mae Castell Sant Ffraid yn blasdy wledig farwnol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gydag amlinelliad castellog a 93 erw o dir parc aeddfed.

Saif eglwys fechan Sant Ffraid ar ymyl Porthladd Sant Ffraid yn edrych allan dros y môr.

**Cymeriad:** Gweddol wastad, caeau a da byw, sticlau (5), gall fod yn fwdlyd mewn manau.